COFNODION Y CYNGOR: Busnes Agored
12.30 p.m., Dydd Mawrth 27 Gorffennaf 2021
Fe'i cynhaliwyd mewn sawl lleoliad, trwy feddalwedd Zoom

Busnes Agored y Cyngor – cofnodion 1 i 15 yn gynwysedig.

1. Presenoldeb ac Ymddiheuriadau

Yn bresennol: Toni Schiavone (Is-gadeirydd; yn Cadeirio), Caroline Davies, Tim Palazon, Sonia Reynolds (Is-gadeirydd), Cathy Clark, Gareth Cork, Jenni Jones-Annetts, Jan Tiley, Stephen Nicholls, Salamatu Fada, Dona Lewis, Judith Evans, Chris Franks, Victory Ezeofor, Carl Hoskins; John Graystone (Cadeirydd) – o gofnod 4 ymlaen. Roedd cworwm drwy gydol y cyfarfod.
Yn mynychu: Kathryn Robson (Prif Weithredwr), Cath Hicks (Pennaeth Gwasanaethau Dysgwyr ac Adnoddau), Mark Baines (Pennaeth Cwricwlwm a Pherfformiad) - tan gofnod 8 yn unig; Stephen Thomas (Ysgrifennydd y Cwmni/Clerc); Siôn Aled Owen (cyfieithydd ar y pryd). Hefyd Shabnam Brookbank (cofnodion 9 a 10).
Ymddiheuriadau: Marion Burke, Suzanne Samuel.
Yn absennol: Steve David.

2. Materion Cyflwyniadol

Cadeiriodd Toni Schiavone y cyfarfod, er cyfleustra technolegol. Cyflwynodd y ddau aelod newydd o'r Cyngor eu hunain, sef Victory Ezeofor (rhanbarth Gogledd-Orllewin Cymru) a Carl Hoskins (rhanbarth De-Ddwyrain Cymru). Cychwynnwyd y cyfleuster cyfieithu ar y pryd, ar sianel sain ar wahân ar yr alwad Zoom, ac esboniodd Siôn Aled Owen ei ddefnydd.

3. Cofnodion Busnes Agored yng nghyfarfod y Cyngor ar 18 Mai 2021 a materion yn codi

Cymeradwywyd cofnodion trafodion Busnes Agored cyfarfod blaenorol y Cyngor, a gynhaliwyd trwy Zoom, yn gofnod cywir. Roedd dau fater yn codi. O ran cofnod 4 (llywodraethwr arweiniol iechyd a lles), er nad oedd y grŵp perthnasol y byddai Cathy Clark yn bresennol ynddo yn ei rôl newydd wedi cael cyfarfod cyntaf eto, roedd AOC|ALW newydd benodi cyflogai i swydd newydd Hyrwyddwr Iechyd a Lles am 2 ddiwrnod yr wythnos. Ac o ran cofnod 5 (cyswllt â'r Gweinidog Addysg newydd), roedd yr ohebiaeth y cytunwyd arni wedi cael ei hanfon, yn cynnwys cais i gyfarfod ag ef; fodd bynnag, roedd Kathryn Robson eisoes wedi cyfarfod â Jeremy Miles yn rhan o gynulliad mwy o faint gan ColegauCymru ac wedi gofyn dau gwestiwn am ddysgu gydol oes iddo bryd hynny. Roedd sefydliad Dona Lewis wedi cael cyfarfod gydag ef hefyd, ac felly hefyd Toni Schiavone, a gadarnhaodd fod y Gweinidog yn cofio ei ymddangosiad yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2018 AOC|ALW yng Nghastell-nedd.

4. Marchnata, Aelodaeth ac Eiriolaeth

Cyflwynodd Toni Schiavone, fel Cadeirydd, yr eitem hon drwy ddweud bod cryn dipyn o waith wedi cael ei wneud i ddiwygio'r papur cysylltiedig, gan fod y Pwyllgor Adnoddau wedi trafod fersiwn gynharach ohono a gofyn am newidiadau, er ei fod yn derbyn ei fyrdwn cyffredinol. Rhannodd Kathryn Robson ei sgrin â'r cyfranogwyr a chyflwynodd drosolwg o'r cynigion, gan ddechrau drwy ystyried hunaniaeth y Sefydliad (gan gyfaddef ei fod wedi colli ei ffordd rywfaint yn ddiweddar ac nad oedd yn defnyddio ei holl gryfderau hanesyddol).

Esboniwyd pwysigrwydd trefniadau aelodaeth AOC|ALW a'i gwaith eirioli, a sut oedd angen i'w gweithgareddau marchnata gyd-fynd â'r elfennau hyn. Roedd angen cynllun aelodaeth ystyrlon. Cynhaliwyd ymarfer ymgynghori ynglŷn â hynny a chyfrannodd y Fforymau Rhanbarthol a'r Grŵp Rheoli Gwirfoddol ato. Roedd angen rhoi mwy o sylw i weithgareddau eirioli hefyd. Disgrifiwyd elfennau'r cynnig aelodaeth diwygiedig, gan gynnwys y cynnig o ffi aelodaeth wirfoddol/amrywiol, y teimlwyd y byddai'n rhoi cymhelliad cryfach i gydweithwyr hyrwyddo'r cynllun aelodaeth. Cydnabuwyd bod angen cynyddu ffocws a chryfhau marchnata, gan ddechrau gyda strategaeth drosfwaol a ddylai gael ei llunio gan arbenigwyr allanol (yn debyg i Strategaeth Datblygu Busnes 2019). Roedd angen rhai newidiadau staffio strwythurol i gyflawni hynny i gyd.

Wrth drafod, atebwyd cwestiwn am ffioedd blynyddol canghennau o dan y system newydd, a chadarnhawyd hefyd fod y bwriad o hyrwyddo ac ymestyn aelodaeth â'r sefydliad yn rhan gadarnhaol o'r 'ail-frandio'. Mynegwyd ychydig o amheuaeth ynglŷn â graddfa amrywiol y ffioedd aelodaeth arfaethedig, ond y raddfa amrywiol oedd y mwyaf poblogaidd o'r ystod eang o safbwyntiau a gafwyd yn rhan o'r ymgynghoriad. Fodd bynnag, ofnwyd bod yr ymgynghoriad hwnnw wedi cynnwys aelodau a oedd eisoes yn ymwneud â'r Sefydliad, i bob pwrpas: ni chlywyd gan aelodau anweithredol neu 'am ddim' i raddau helaeth - er hynny, rhaid cyfaddef bod dysgwyr wedi bod yn bresennol yn y Fforymau Rhanbarthol. Ar sail ei brofiad o undeb llafur, teimlai Carl Hoskins ei bod yn hanfodol bod pobl yn deall beth oeddent yn ei gael o'u haelodaeth - egluro tair mantais allweddol, er enghraifft. Gofynnwyd am eglurhad hefyd ynglŷn â'r goblygiadau ariannol a faint o bobl oedd mewn perygl o ddileu swydd. Nid oedd dadansoddiad ariannol manwl o oblygiadau'r newid i aelodaeth wedi cael ei gynnal: yr incwm presennol o'r ffioedd aelodaeth oedd tua £2,000 y flwyddyn, felly nid oedd cynhyrchu incwm yn fater o bwys ac roedd y risg ariannol yn ddibwys yn hynny o beth. Roedd un aelod o'r Cyngor o'r farn y byddai wedi bod yn ddefnyddiol petai strategydd marchnata eisoes wedi cael ei gyflogi i gynnal y dadansoddiad, fel bod drafft o'r ddogfen honno wrth law ar yr adeg hon o'r cynigion, cyn dod i gasgliadau. Roedd gan y Sefydliad gynllun marchnata ar hyn o bryd ond nid strategaeth: teimlai'r rheolwyr fod y newidiadau a gynigir yn awr yn angenrheidiol yn gyntaf er mwyn ei hwyluso, ac roedd angen i'r broses ddilyn y camau hyn.

Roedd adolygiad mewnol a'r ymgynghoriad allanol wedi dangos i uwch reolwyr fod angen addasu'r strwythur staffio sefydliadol i sicrhau bod digon o adnoddau ar gael ar gyfer y rôl aelodaeth, oedd yn gysylltiedig â gweithgareddau eirioli. Yn flaenorol, roedd staff wedi rhannu'r cyfrifoldeb am yr elfennau hynny gyda dyletswyddau eraill, ond nid oedd rolau cymysg o'r fath wedi bod yn gwbl lwyddiannus. Dyna'r rheswm pam y cynigiwyd eu cyfuno'n swydd newydd Swyddog Aelodaeth ac Eiriolaeth. O ystyried ansicrwydd ariannol y dyfodol, y cynnig cysylltiedig oedd y byddai'r swydd Rheolwr Marchnata a Chyfathrebu yn cael ei dileu o'r strwythur sefydliadol yn rhan o'r newid hwn, gyda'r cyfrifoldeb am y wefan yn symud i'r Rheolwr Datblygu Digidol, a chyda'r nod o sicrhau bod mwy o'r gwaith marchnata oedd yn cael ei roi ar gontract allanol ar hyn o bryd yn cael ei wneud yn fewnol, gan arwain at gymysgedd ehangach o dechnegau marchnata. Er bod dadansoddiadau cost/budd ac effeithiolrwydd yn bwysig, gwerth am arian oedd y prif destun trafod yn hyn o beth. Byddai'r cynnig ailstrwythuro hwn yn arbed rhwng £10,000 a £18,000 o gostau, a fyddai'n cael eu defnyddio i gomisiynu'r strategydd marchnata allanol. O ystyried y risg o ddileu swydd ar gyfer un deiliad swydd, esboniwyd y polisi dileu swydd presennol yn fanwl.

Ers cryn amser yn ystod trafodaethau'r Pwyllgor Adnoddau ynglŷn â marchnata soniwyd yn gyson am yr angen i ddiwygio blaenoriaethau ac egluro nodau. Teimlwyd bod cyflogeion presennol yn y Tîm Datblygu Digidol ac mewn rhannau eraill o'r Sefydliad yn meddu ar y sgiliau i ymgymryd â mwy o gyfrifoldebau yn y maes hwn, a'u bod eisoes wedi gwneud hynny o ran rheoli digwyddiadau, er enghraifft, a bod rhywfaint o rwystredigaeth ynglŷn â'r sefyllfa anghyson bresennol. Wrth gael eu holi, cadarnhaodd yr uwch reolwyr fod popeth heblaw am ddileu swydd eisoes wedi cael ei wneud i fodloni'r blaenoriaethau a amlygwyd, a bod y newidiadau hyn yn angenrheidiol i oresgyn yr hyn yr oedden nhw'n ei ystyried yn annigonolrwydd presennol.

I gloi, cymeradwyodd y Cyngor, trwy bleidlais o 10 O Blaid a 2 Yn Erbyn y cynnig gyda 4 Ymataliad:

- **y cynnig aelodaeth arfaethedig, er mwyn iddo symud ymlaen i'r camau dylunio a gweithredu;**
- **gweithredu'r achos busnes ar gyfer ailstrwythuro staff a rheoli newid;**
- **adolygiad o'r newidiadau hyn, i'w gynnal 12 mis ar ôl eu gweithredu.**

5. Adroddiad y Prif Weithredwr ar gyfer mis Gorffennaf 2021

Dechreuodd Kathryn Robson drwy gadarnhau y byddai'r targed cyflawni addysgol o 65% yn cael ei fodloni, bod niferoedd dysgwyr yn gryf, a bod paratoadau'n mynd rhagddynt ar gyfer mwy o ddosbarthiadau wyneb yn wyneb yn y tymor nesaf. Ni fu unrhyw broblemau o ran salwch Covid-19 ymhlith staff yn ddiweddar, a chanmolwyd llwyddiant Rob Burton wrth ennill Gwobr Diwtor Inspire!

Roedd Toni Schiavone o'r farn bod digwyddiad Canmlwyddiant Raymond Williams yn gynharach yn y mis yn dangos y Sefydliad ar ei orau, a bod Nia Parry wedi creu argraff dda yn ei rôl lywyddol. Wrth ateb cwestiynau, cadarnhawyd bod y swydd wag Rheolwr Iechyd, Diogelwch, yr Amgylchedd ac Ystadau wedi cael ei hysbysebu a bod ceisiadau eisoes wedi cael eu derbyn; a bod AOC|ALW yn ymwneud â chais Erasmus+ gyda sefydliad partner yn yr Eidal (para. 6.4), er y rhoddir pwyslais ar ffrydiau cyllido Ewropeaidd/byd-eang newydd yn y dyfodol, gan alluogi'r Sefydliad i ganolbwyntio ar ei gryfderau o ran gwaith anhrefol a chymunedol. Gallai arian prosiect o'r math hwnnw gael ei ddefnyddio ar gyfer ymweliadau o fewn Ewrop, ond nid oedd hynny'r un peth â defnyddio arian aelodau neu ganghennau ar gyfer teithiau lleol/cenedlaethol i amgueddfeydd, neu leoliadau eraill.

6. Cofrestr Risgiau ar gyfer mis Gorffennaf 2021

Dechreuodd Mark Baines drwy ddweud bod un o'r ymarferion archwilio mewnol diweddar wedi canolbwyntio ar reoli risgiau ac wedi dod i'r casgliad bod 'sicrwydd sylweddol' ar gyfer y prosesau oedd yn gysylltiedig â hynny: hyderai fod hwnnw'n rhoi tawelwch meddwl i'r Cyngor.

Roedd y Pwyllgor Archwilio wedi adolygu'r Gofrestr yn gynharach ym mis Gorffennaf ac roedd y diweddariad unigol y gofynnodd amdano wedi cael ei wneud. Trafodwyd (fel yn y cyfarfod Pwyllgor) risg 1.1.1 a dibyniaeth uchel barhaus AOC|ALW ar gyllid Llywodraeth Cymru. Roedd aelodau'n parhau i bryderu am y nifer gymharol fach o ddulliau a nodwyd o liniaru'r risg hon, ac roeddent eisiau cael mwy o fanylion am sut gellid cyflawni mwy o hunangynhaliaeth ariannol dros raddfa amser o 3 i 5 mlynedd, dyweder. Roedd strategaeth aelodaeth a'r bwriad gohiriedig o brynu adeilad newydd yn ddatblygiadau a allai fod yn fodd o liniaru, er hynny'n gymharol fach. Cydnabuwyd nad oedd AOC|ALW yn wahanol iawn i golegau Addysg Bellach yng Nghymru yn hyn o beth: roedd hyd yn oed y colegau hynny â chyllid prentisiaethau sylweddol yn ddyledus i Lywodraeth Cymru am y mwyafrif helaeth ohono o hyd. Mynegwyd barn arall bod dibyniaeth o'r fath gan y Sefydliad wedi bod yn beth cadarnhaol hyd yma yn ystod y 18 mis o Covid-19. Nid oedd hynny'n negyddu'r angen i ddangos i Lywodraeth Cymru fod cryn ymdrech yn cael ei gwneud i amrywiaethu ffynonellau cyllid, erbyn i'r toriadau anochel o ffynonellau canolog gyrraedd.

7. Cyllidebau ar gyfer 2021-22

Dywedodd Mark Baines fod y rhain yn cynllunio gwarged o £18,000 a'u bod wedi eu llunio ar sail amryw dybiaethau, ond bod llawer o ansicrwydd o hyd ynglŷn â modelau cyflawni a thargedau yn amodol ar ddatblygiadau Covid-19 yn y flwyddyn i ddod. Fel yr oedd y flwyddyn ariannol hon a'r un flaenorol wedi dangos, bu newidiadau mawr rhwng yr ymarfer cyllidebu a'r ffigurau all-dro gwirioneddol oherwydd effaith y pandemig. O ran cyflogau athrawon (cynigiwyd cynnydd o 1.75%), eglurwyd bod y cyllidebau'n cynnwys cynnydd o 1% i gyflogau yn gyffredinol: gobeithiwyd y byddai Llywodraeth Cymru yn talu'r gwahaniaeth ariannol hwnnw, fel yr oedd wedi'i wneud mewn blynyddoedd blaenorol. **Cymeradwyodd y Cyngor y cyllidebau ar gyfer 2021-22 fel y'u cyflwynwyd, ac fel y'u hargymhellwyd gan y Pwyllgor Adnoddau**.

8. Cyfrifon Rheoli ar gyfer 1 Awst 2020 - 31 Mai 2021

Roedd y rhain yn dangos sefyllfa iach ar ôl 10 mis o'r flwyddyn ariannol a rhagolwg cadarnhaol ar ddiwedd y flwyddyn. Roedd Llywodraeth Cymru wedi darparu £20,000 arall yr wythnos flaenorol yr oedd yn rhaid ei wario ar offer TG erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Diolchodd Chris Franks i Mark Baines a'i gydweithwyr am sicrhau dwy flynedd yn olynol o wargedau ariannol, er gwaethaf Covid-19.

9. Profiad dysgwr gydag AOC|ALW

Siaradodd Shabnam Brookbank, ffoadur o Affganistan a deithiodd i Gymru trwy Irac, yn rymus am y ffordd yr oedd addysg gydag AOC|ALW ar gyrsiau fel Ysgrifennu CV, Cyflogadwyedd a Sgiliau TG wedi ei grymuso a'i helpu i integreiddio'n well yn ardal y Trallwng o Bowys. Adferodd ei hyder ar ôl ymatebion negyddol gan ei theulu a chyd-ffoaduriaid yng Nghymru i'r ffaith ei bod hi wedi priodi rhywun nad oedd yn Fwslim. Roedd hi bellach yn cael ei chyflogi fel gweithiwr cymorth ar gyfer ffoaduriaid eraill, ac roedd yn arbennig o ddiolchgar am fewnbwn ac ymyriadau Cecilia Forsythe (Swyddog Cyflawni Cwricwlwm AOC|ALW). Roedd angen i fewnfudwyr a ffoaduriaid ddangos gwydnwch fel hyn, ac roedd aelodau'r Cyngor yn credu y dylai'r Sefydliad roi cymaint o gyhoeddusrwydd â phosibl i stori Shabnam.

10. Dangosyddion Perfformiad Allweddol yr Uwch Dîm Rheoli ar gyfer 2021

Roedd llawer o'r dangosyddion yn felyn o hyd ar yr adeg hon, yn ôl y disgwyl, sef ychydig dros hanner ffordd drwy'r flwyddyn oedd yn cael ei monitro. Cadarnhawyd bod darpariaeth cyfrwng Cymraeg (pwynt 1.1) wedi cael ei lleihau'n swyddogol i darged o 2% o'r ddarpariaeth gyffredinol. O ran pwynt 4.3 ynglŷn â chyfle cyfartal, byddai'r cynllun gweithredu newydd ar gyfer y rhaglen Cyflogwr Hyderus o ran Anabledd yn sbarduno cyflawni rhai ymrwymiadau yn ymwneud â materion cysylltiedig, er bod aelodau staff yn dal i gael eu hannog i ddiweddaru eu proffiliau manylion personol ar anabledd i gael darlun llawnach o'r sefyllfa ymhlith y gweithlu presennol.

11. Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Profiad y Dysgwyr ar 28 Mehefin 2021 ac Adroddiad Cwricwlwm mis Mehefin 2021

Rhoddodd Caroline Davies, sef y Cadeirydd, grynodeb o'r materion allweddol a drafodwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor o'r mis blaenorol. Nododd y Cyngor y cofnodion. Amlinellodd yr Adroddiad ddisgrifiadau manylach o rai o'r pwyntiau a wnaed yn y cofnodion. Yr unig sylw cyffredinol a wnaed oedd bod yr Adroddiad yn dangos bod staff wedi addasu'n glodwiw i gyflwyno ar-lein.

12. Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Adnoddau ar 5 Gorffennaf 2021

Amlygodd Steve Nicholls, Cadeirydd y Pwyllgor: y byddai'r trosiant 25% o ran staff addysgu yn 2019-20 yn cael ei fonitro; lefelau darpariaeth yn rhanbarth y Gogledd, gan gynnwys y newid a gynigiwyd yno i staff ESOL; trafod o waddol Tudor Bowen Jones; a'r ffaith bod prynu adeilad newydd wedi cael ei gadarnhau'n flaenoriaeth, gyda hyd at £500,000 o gronfeydd wrth gefn wedi'i glustnodi o hyd ar gyfer adeilad yng Nghasnewydd. Nodwyd y cofnodion yn briodol.

Gofynnwyd cwestiwn ynglŷn â statws y pum tiwtor Addysg Sylfaenol i Oedolion a drosglwyddwyd o Goleg y Cymoedd, oherwydd rhoddwyd sicrwydd i'r Pwyllgor Archwilio na ragwelwyd unrhyw broblemau wrth eu trosglwyddo yn 2018, ac eto roedd paratoadau'n mynd rhagddynt ar gyfer dileu rhai swyddi ac roedd yr holl beth wedi bod yn eithaf costus i'r Sefydliad. Wrth ymateb, cyfeiriwyd at Covid-19 fel ffactor oedd wedi lleihau'r galw, a dywedwyd bod y tiwtoriaid dan sylw yn fodlon â'r canlyniadau a gynigir ar hyn o bryd o ran llai o rolau a rhai pecynnau diswyddo gwirfoddol. Cadarnhaodd Judith Evans (a fynegodd ddiddordeb yn y mater hwn) nad oedd unrhyw atebolrwydd ar y cyflogwr blaenorol, o dan delerau TUPE, am daliadau dileu swydd. Nodwyd y canlyniad hwn o ran goblygiadau posibl, neu wersi a ddysgwyd, ar gyfer cynigion yn ymwneud â chymryd drosodd darpariaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn Sir Benfro - er bod y sail i'r posibilrwydd hwnnw'n wahanol iawn o ran staffio.

13. Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio ar 6 Gorffennaf 2021

Roedd Sonia Reynolds wedi cadeirio'r cyfarfod hwn, nad oedd yn ffurfio cworwm, a gynhaliwyd ar y sail bod yr holl eitemau ger ei fron at ddibenion monitro yn hytrach na phenderfynu arnynt. Roedd natur gyffredinol yr holl adroddiadau a dderbyniwyd yn gadarnhaol. Fodd bynnag, wrth i'r cofnodion gael eu nodi gan y Cyngor, **gofynnodd hi am wirfoddolwyr o blith aelodau'r Cyngor i gynyddu'r niferoedd ar y Pwyllgor**.

14. Hunanasesu trafodion y cyfarfod gan aelodau'r Cyngor

Roedd y fformat Zoom wedi gweithio'n dda, ym marn rhai aelodau, o ran y cyfleuster cyfieithu ar y pryd (oedd bellach ar waith fel mater o bolisi ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus AOC|ALW hefyd). Ond nid oedd hynny'n lleihau'r rhwystredigaeth barhaus gyffredinol nad oedd y cyfarfod hwn wedi cael ei gynnal wyneb yn wyneb. Roedd aelodau wedi mynegi eu blaenoriaeth ynglŷn â'r mater hwnnw wrth ymateb i ohebiaeth y Clerc yn dilyn y cyfarfod blaenorol. Byddai cyfarfodydd y Cyngor a Phwyllgorau yn y dyfodol yn cael eu rhaglennu i gydymffurfio â'r farn gyffredinol a fynegwyd, cyn belled ag y bo'n ymarferol; fodd bynnag, cytunwyd ei bod yn rhy gynnar gwneud cynlluniau cadarn ar gyfer cyfarfodydd wyneb yn wyneb rheolaidd ar hyn o bryd.

15. Dyddiadau cyfarfodydd y Cyngor ar gyfer 2021-22

- Dydd Iau 30 Medi 2021

- Dydd Mawrth 23 Tachwedd 2021
- Dydd Llun 24 Ionawr 2022
- Dydd Iau 17 Mawrth 2022
- Dydd Gwener 8 Ebrill 2022 (Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol)
- Dydd Mawrth 10 Mai 2022
- Dydd Llun 4 Gorffennaf 2022

PWYNTIAU GWEITHREDU

Cyfeirnod	Enw'r cofnod	Cam gweithredu y cytunwyd arno	Gweithredu gan bwy	Gweithredu erbyn pryd
Cofnod 4	Marchnata, Aelodaeth ac Eiriolaeth	Cymeradwyodd y Cyngor, trwy bleidlais o 10 O Blaid a 2 Yn Erbyn y cynnig gyda 4 Ymataliad: - y cynnig aelodaeth arfaethedig, er mwyn iddo symud ymlaen i'r camau dylunio a gweithredu; - gweithredu'r achos busnes ar gyfer ailstrwythuro staff a rheoli newid; - adolygiad o'r newidiadau hyn, i'w gynnal 12 mis ar ôl eu gweithredu.	KR / CH	Medi 2021
Cofnod 13	Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio ar 6 Gorffennaf 2021	Gofynnwyd am wirfoddolwyr o blith aelodau'r Cyngor i gynyddu'r niferoedd ar y Pwyllgor.	Aelodau'r Cyngor / ST	Medi 2021